Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

Rhagfyr 2025

Ar 14 Hydref, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27 gerbron y Senedd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft, a'i argymhellion.

## Tystiolaeth

**1.** Yn sail i'r adroddiad hwn, mae tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod craffu ar y gyllideb ar 26 Tachwedd 2025. Yn y cyfarfod hwnnw cynhaliodd y Pwyllgor dair sesiwn graffu.

**2.** Roedd y sesiwn gyntaf yn archwilio materion gwledig gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ("y Dirprwy Brif Weinidog"). Archwiliodd yr ail sesiwn faterion yn ymwneud â masnach a ffiniau gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ("yr Ysgrifennydd Cabinet"). Edrychodd y sesiwn olaf ar yr economi a sgiliau, gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ("y Gweinidog") yn rhoi tystiolaeth.

**3.** Ym mhob un o'r tair sesiwn, daeth swyddogion ategol gyda'r Gweinidogion. Mae tystiolaeth ysgrifenedig yn sail i'r adroddiad hwn hefyd, a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y tri Gweinidog cyn y cyfarfod. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair pennod sy'n ymdrin yn fras â'r economi a sgiliau, masnach, a ffiniau a materion gwledig.

## Cyllid heb ei ddyrannu

**4.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys swm heb ei ddyrannu o £380m. Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"There is a small allocation that is available for use across the whole of the Cabinet space, and the invitation has been put there to all party leaders to come in, and party spokespeople to come in, and talk to us about what their priorities are within that unallocated space."*
>
> *He went on to say "we are convinced of as a Government is that there's a priority here for protecting front-line public services that people rely on on a day-to-day basis, however, we've opened the door for discussions on it."*[1]

**5.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y bydd llawer o alw am y cyllid hwn. Rydym o'r farn y gellid ei wario'n dda ar draws cylchoedd gwaith yr economi, masnach a materion gwledig, fodd bynnag, rydym yn siŵr y bydd pob Pwyllgor arall yn teimlo'r un peth am feysydd o fewn eu cylch gwaith. O ganlyniad, rydym wedi blaenoriaethu argymhellion ar gyfer gwariant ychwanegol ar feysydd lle bydd hyn yn cael yr effaith fwyaf.

## Cytundeb y Gyllideb

**6.** Ar 9 Rhagfyr cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb cyllidebol gyda Phlaid Cymru. Roedd tair elfen i'r cytundeb:

- Cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol yn 2026-27 – £112.8m ychwanegol, sef cynnydd cyffredinol o 4.5% i'r setliad llywodraeth leol. Bydd pob cyngor yn cael cynnydd dros 4%.

- Cyllid ychwanegol ar gyfer y gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol – £180m ychwanegol, sydd, o'i gymryd ynghyd â'r cyllid yn y Gyllideb Ddrafft, yn cyfateb i gynnydd o 3.6% yn 2026-27.

- Bydd £120 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael i'r llywodraeth nesaf ar ôl etholiad y Senedd i'w ddyrannu.[2]

[1] Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraffau 17 a 18
[2] Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cytundeb y Gyllideb

**7.** Ar wahân i'r sylwadau hynny, nid oedd y cyhoeddiad yn nodi sut y byddai'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu. Adolygodd y Pwyllgor dystiolaeth ac archwiliodd y gyllideb ddrafft cyn y datganiad hwn. Yn unol â hynny, mae'r adroddiad yn seiliedig ar y gyllideb fel y'i cyflwynwyd ac nid yw'n ymgorffori unrhyw oblygiadau mewn cysylltiad â'r cyhoeddiad newydd.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid i Busnes Cymru i lefel lle gall sicrhau effaith mor gadarnhaol â phosibl ar werth ychwanegol gros. ............12

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymorth i Fusnesau. ............12

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r gefnogaeth i fusnesau manwerthu cymwys drwy gyflwyno'r lluosydd manwerthu newydd yn cymharu â'r hyn sydd ar gael drwy'r rhyddhad a gynigir drwy'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden yn 2025-26. ............12

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fonitro effaith y lluosydd ardrethi busnes newydd ar y sector manwerthu stryd fawr ac edrych i ymestyn hyn i fusnesau lletygarwch a hamdden ar y stryd fawr cyn gynted â phosibl os yw'n llwyddiannus. ............12

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r targed o £100 miliwn ar gyfer Cymoedd Technoleg, egluro'r hyn y gellir ei gyflawni ar gyfer prosiect Cymoedd Technoleg, a chyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer hwnnw. ............14

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru lynu at yr ymrwymiad Cymoedd Technoleg a buddsoddi gweddill yr arian ar gyfer y prosiect cyn gynted â phosibl. ............14

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiad lefel uchel i gynyddu cynhyrchiant yn y Gyllideb Derfynol ac ystyried gweithredu argymhellion Fforwm Cynhyrchiant Cymru, yn enwedig o ran creu cynllun cynhyrchiant cenedlaethol, i gefnogi'r nod hwn. ............18

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir defnyddio ffrydiau ariannu presennol a newydd orau i helpu pobl sy'n economaidd anweithredol i gael gwaith. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai archwilio sut y gall cynigion a ddatblygwyd yn ddiweddar gan Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru gyfrannu, ac ystyried a ellid defnyddio cyllid ychwanegol o gyllideb 2026-27 i dreialu unrhyw elfennau o'r cynigion hyn cyn cyflwyno'r rhaglen gymorth cyflogadwyedd newydd yn 2027. ............23

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r buddsoddiad uwch mewn gwasanaethau cymorth cyflogaeth i sicrhau ei bod yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at y farchnad swyddi. Os gwelir bylchau yn y ddarpariaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i ddarparu gwasanaethau arbenigol tebyg i'r rhai a gynigir o dan y rhaglen Engage to Change. ....23

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn ymateb i gynnydd pellach mewn diweithdra, yn enwedig os bydd digwyddiad sydyn yn effeithio ar y farchnad lafur, a sut y mae'n sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer rhaglenni fel ReAct+, fel eu bod yn gwbl barod i ymateb i unrhyw gynnydd mewn diweithdra. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru hefyd sicrhau bod paratoi ar gyfer cynnydd posibl mewn diweithdra yn rhan o'i chynlluniau ariannol. ....23

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi cynlluniau wrth gefn yn glir ochr yn ochr â chyhoeddi'r gyllideb derfynol er mwyn sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni o'u buddsoddiad yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd os na fyddant yn sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat yn y flwyddyn galendr nesaf. ....25

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth benodol i'r Pwyllgor am yr arweiniad a roddir ynghylch y BEL ar gyfer y Cam Gweithredu Prentisiaethau a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl i Medr ei wneud. ....27

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n union sut y bydd yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol yn y dyfodol ar y gyllideb prentisiaethau, gan gynnwys, os oes angen, sut y bydd yn dod o hyd i gyllid ychwanegol. ....27

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn gryf ddefnyddio arian sydd heb ei ddyrannu i gefnogi'r sector prentisiaethau ac yn fwy cyffredinol i gefnogi mynediad prentisiaid at gyfleoedd astudio. ....27

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog amlinellu ei syniadau ynghylch a ddylid ychwanegu mwy o bynciau at y rhaglen prentisiaeth gradd, faint y gallai hynny ei gostio a beth allai'r manteision fod i ddysgwyr a'r economi. ....27

**Argymhelliad 16.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am effeithiau disgwyliedig trafodaethau'r DU a'r UE ar bolisïau, gweithrediadau a chyllideb Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran datblygu safleoedd rheolaethau'r ffin. ....33

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amcangyfrif o'r costau i fusnesau sy'n gysylltiedig â safleoedd rheolaethau'r ffin a'r costau gweinyddol sy'n ymwneud â'r drefn fasnach ar ôl Brexit. 33

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gyfnodau chwarterol fydd yn cael eu cynnwys yn adolygiad Cyllid a Thollau ei Fawrhydi o ystadegau masnach y DU mewn ymateb i'r adroddiad hwn, a rhoi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'i chanfyddiadau erbyn mis Mawrth 2026. 33

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried pob mecanwaith posibl sydd ar gael iddi i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael y cyllid sydd ei angen i gyflawni ei huchelgais, drwy gefnogi ffermwyr. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar ddefnyddio Fformiwla Barnett i ariannu cymorth amaethyddol, a dylai ailagor trafodaethau gyda'r DU ynghylch symud yn ôl i ddyraniad ar gyfer amaethyddiaeth yn seiliedig ar anghenion/yr hyn a gynhyrchir. 38

**Argymhelliad 20.** Dylai'r Llywodraeth hon a'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru ystyried sut y gallant ddychwelyd gwerth termau real y pecyn cymorth amaethyddol i'r un lefel â'r cyfnod cyn 2016. 38

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai dyrannu cyllid ychwanegol i'r BEL Pysgodfeydd gyflymu'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sy'n weddill. 40

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau mewn perthynas â'r Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol. 40

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid defnyddio'r Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol i sicrhau bod buddion cadwyn gyflenwi bwyd môr Cymru yn aros yng Nghymru er budd cymunedau arfordirol, gan gynnwys buddsoddi yn y sector prosesu bwyd môr. 40

**Argymhelliad 24.** Dylid cwblhau'r adolygiad i daliadau iawndal TB buchol cyn diwedd y Senedd hon i lywio dull gweithredu Llywodraeth nesaf Cymru. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull ataliol ar gyfer cyllid TB buchol drwy fynd i'r afael â'r clefyd ei hun gyda pholisïau effeithiol. Dylid llunio'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth a chyngor y Grŵp Cynghori Technegol a'r Bwrdd Rhaglen gan gynnwys dysgu gwersi o arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt. 41

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir yn y gyllideb hon, a dylai Llywodraeth nesaf Cymru nodi mewn cyllidebau yn y dyfodol, y gefnogaeth y bydd garddwriaeth yn ei chael ar draws pob dyraniad. ....................................................... 42

# 1. Yr Economi a Sgiliau

## Dyraniadau

**8.** Roedd dyraniad refeniw Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi, Ynni a Chynllunio yn y gyllideb ddrafft yn £523 miliwn, mae hwn yn gynnydd o £10 miliwn neu 1.9% yn erbyn y llinell sylfaen. Y dyraniad cyfalaf oedd £340 miliwn. Dylid nodi bod hyn yn cynnwys nifer o linellau cyllideb sydd y tu allan i gylch gwaith yr economi a sgiliau ar gyfer y Pwyllgor hwn, gan gynnwys cynllunio ac ynni, sy'n destun craffu gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.[3]

**9.**

## Cymorth busnes

**10.** Mae cyllideb refeniw ddrafft Busnes Cymru wedi cynyddu £40,000 rhwng 2025-26 a 2026-27 – cynnydd o 0.2%. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn amlinellu'r pwysau ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu o ran darparu cymorth i fusnesau:

> *"Yn ystod y misoedd diwethaf, mae cost darparu cymorth busnes wedi cynyddu'n sylweddol, yn bennaf oherwydd pwysau economaidd ehangach a newidiadau polisi penodol fel y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a gyflwynwyd ym mis Ebrill. Mae'r costau ychwanegol hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar gyfraddau contractwyr a chostau danfon cysylltiedig.*
>
> *Nid yw bellach yn ymarferol cynnal yr un lefel o allbynnau a gweithgarwch ag a ddarparwyd yn flaenorol o fewn y gyllideb bresennol."*[4]

**11.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn mynd ymlaen i nodi, oherwydd cyfyngiadau ariannol dros y blynyddoedd blaenorol, "cafodd penderfyniad strategol ei wneud i ddefnyddio llwyfannau digidol er mwyn gwella'r capasiti cyflawni". Mae hyn wedi lleihau rhyngweithiadau wyneb yn wyneb, ond mae wedi golygu bod lefelau gwasanaeth wedi'u cynnal. Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn "werth ystyried a yw'r dull hwn yn dal yn briodol

[3] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur Ysgrifennydd y Cabinet
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur Ysgrifennydd y Cabinet

yn y cyd-destun presennol, yn enwedig wrth i fusnesau wynebu heriau sy’n dod yn fwy cymhleth a allai elwa o gymorth mwy uniongyrchol a phersonol”.[5]

**12.** Ar 18 Tachwedd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ei hadolygiad mewnol o gymorth i fusnesau. Canfuwyd bod Busnes Cymru yn cael ei gydnabod a bod pobl yn ymddiried ynddo, a’i fod yn cynhyrchu hyd at £18 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 a fuddsoddir. Fodd bynnag, canfu hefyd fod busnesau bach a chanolig yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gyllid, gyda phryderon bod prosesau ar gyfer gwneud cais yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, a gwnaeth yr adroddiad 23 o argymhellion. Daeth yr adroddiad i’r casgliad a ganlyn hefyd:

> *“Mae ymdeimlad cyffredinol o ddarnio gyda thair lefel, sef llywodraeth, addysg bellach ac addysg uwch, a'r sector preifat i gyd yn cynnig cymorth i fusnesau o ryw fath”.*[6]

**13.** Yn ei sesiwn gyda'r Pwyllgor nododd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *“the areas for improvement [in the report] included things such as removing duplication—clarifying and simplifying the business offer. I think those kinds of things could release funding to be reinvested in the more direct support that we provide to business.”*
>
> *“Again, this is another area where, if budgets were endless, we would obviously want to do more in this particular space. But the response that we had from business to the advice and information that they get through Business Wales has been really excellent: more than 85 per cent say that they valued and found useful the support that they received as a result. So, we absolutely want to do more in this space.”*[7]

**14.** Ers y Pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cyllid penodol i roi rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden ym mhob cyllideb. Yng Nghyllideb 2025-26, dyrannwyd £78m i gefnogi'r sectorau hyn gyda biliau ardrethi busnes.[8]

[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur Ysgrifennydd y Cabinet
[6] Llyw.Cymru Adolygiad o Gymorth i Fusnesau
[7] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraffau 339 a 340
[8] Llyw.Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth Ardrethi Annomestig ar gyfer 2025-26

**15.** Nid yw'r gefnogaeth honno wedi'i chynnwys eleni. Yn lle hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ardrethi busnes i gynnwys lluosydd newydd is ar gyfer manwerthwyr bach a chanolig o 2026-27, ynghyd â lluosydd uwch ar gyfer eiddo â gwerth uchel gyda gwerth ardrethol dros £100,000.[9] Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi dweud y bydd y lluosydd manwerthu newydd yn "lleihau biliau ardrethi annomestig trethdalwyr cymwys o tua £20m" yn 2026-27.[10]

**16.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi "Bydd trefniadau ardrethi annomestig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn cael eu pennu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ein Cyllideb Derfynol. Bydd hyn yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU a chanlyniad yr ailbrisio ardrethi annomestig nesaf, a fydd hefyd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026".[11]

**17.** Mae rhanddeiliaid wedi cwestiynu pam nad yw'r lluosydd newydd hwn yn cael ei ymestyn i'r sectorau hamdden a lletygarwch, o ystyried eu bod hefyd yn wynebu heriau tebyg i fusnesau manwerthu. Dywedodd FSB Cymru yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid:

> *"Given that across most other areas of policy they are assigned together as they face similar challenges, we do not see why this policy should be treated differently and extricate Retail from Hospitality and Leisure in terms of support."*[12]

**18.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth Aelodau:

> *"The reason why retail was chosen in the first instance to use this new power in relation to non-domestic rates was because it competes uniquely, I think, with online sales, and it finds itself in a vulnerable position in that particular way. So, I think that's why this sector was particularly chosen.*
>
> *It's also worth recognising, of course, that around two thirds of businesses pay no non-domestic rates, in any case, because of their*

---

[9] Llyw.Cymru Cynigion ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol ardrethi annomestig: crynodeb o'r ymatebion
[10] Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur Ysgrifennydd y Cabinet
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 Ymateb FSB Cymru

> *size, and also 80 per cent of businesses either pay nothing or have a reduced bill. So, in the event, it's only 20 per cent of businesses who pay their full liability in any case, because we've got such a wide range of support available.”*[13]

**19.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud ei bod yn rhagweld wrth ddod i arfer â’r pŵer newydd sydd ganddynt, y bydd ffyrdd eraill y gellir edrych ar ddefnyddio’r dull.[14] Eglurodd hefyd fod pecynnau cymorth eraill ar gael ar gyfer y sectorau lletygarwch a hamdden. Cyfeiriodd yn benodol at y gronfa sydd wedi’i hehangu ar gyfer addasu i’r tywydd a'r gronfa buddsoddi mewn twristiaeth fel enghreifftiau.[15]

## Ein barn ni

Roeddem yn bryderus o glywed am y pwysau ariannol sy'n effeithio ar ddarpariaeth cymorth busnes Llywodraeth Cymru a amlinellwyd ym mhapur yr Ysgrifennydd Cabinet. Mae pob £1 a fuddsoddir mewn Busnes Cymru yn cynhyrchu hyd at £18 mewn gwerth ychwanegol gros, sy'n dangos yr effaith y mae dyraniadau i'r maes hwn yn ei chael ar dwf economaidd.

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd i sicrhau arbedion drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, gan ddileu dyblygu a symleiddio'r cynnig cymorth busnes. Fodd bynnag, rhaid ystyried y rhain yn erbyn y datganiad clir ym mhapur yr Ysgrifennydd Cabinet: “Nid yw bellach yn ymarferol cynnal yr un lefel o allbynnau a gweithgarwch ag a ddarparwyd yn flaenorol o fewn y gyllideb bresennol”, a’r angen am fwy o gymorth wyneb yn wyneb i fusnesau sy’n wynebu heriau cymhleth. Felly, rydym o’r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddyrannu rhywfaint o'r £380 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu o'r gyllideb ddrafft i Busnes Cymru.

Rydym yn croesawu'r lluosydd ardrethi busnes is ar gyfer manwerthu ac yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i gefnogi ein strydoedd mawr sy’n wynebu trafferthion. Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau sut mae'r gefnogaeth a gynigir i fusnesau manwerthu cymwys drwy gyflwyno'r lluosydd yn cymharu â'r hyn sydd ar gael drwy'r rhyddhad sydd ar gael i fusnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden yn 2025-26.

[13] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraffau 356-257
[14] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 358
[15] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 361

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hamdden a thwristiaeth hefyd yn rhan hanfodol o'n strydoedd mawr a'u bod yn tyfu ac yn helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fonitro effaith y lluosydd ardrethi busnes newydd ar y sector manwerthu stryd fawr ac edrych i ymestyn hyn cyn gynted â phosibl i fusnesau lletygarwch a hamdden ar y stryd fawr os yw'n llwyddiannus.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid i Busnes Cymru i lefel lle gall sicrhau effaith mor gadarnhaol â phosibl ar werth ychwanegol gros.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymorth i Fusnesau.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r gefnogaeth i fusnesau manwerthu cymwys drwy gyflwyno'r lluosydd manwerthu newydd yn cymharu â'r hyn sydd ar gael drwy'r rhyddhad a gynigir drwy'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden yn 2025-26.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fonitro effaith y lluosydd ardrethi busnes newydd ar y sector manwerthu stryd fawr ac edrych i ymestyn hyn i fusnesau lletygarwch a hamdden ar y stryd fawr cyn gynted â phosibl os yw'n llwyddiannus.

## Cymoedd Technoleg

**20.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn amlinellu dyraniadau cyllideb drafft i raglen Cymoedd Technoleg o £5 miliwn o gyfalaf a £1.76 miliwn o refeniw.

**21.** Lansiwyd rhaglen Cymoedd Technoleg yn 2017 a'i nod "yw gwneud Cymoedd y De yn ganolfan a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer datblygu technolegau newydd i gefnogi diwydiant arloesol."[16] Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wario £100 miliwn ar raglen Cymoedd Technoleg dros gyfnod o ddeng mlynedd, gyda'r nod o greu 1,500 o swyddi newydd dros y deng mlynedd nesaf.[17]

**22.** Fodd bynnag, mewn ymateb i adroddiad diwethaf y Pwyllgor[18] ar y gyllideb ddrafft dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

[16] Llywodraeth Cymru Rhaglen Cymoedd Technoleg
[17] Llywodraeth Cymru, Gweledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg
[18] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

> *"While it may no longer be possible to achieve the original Welsh Government commitment to spend £100 million on the Tech Valleys programme by 2028, given wider budget pressures, projects continue to be developed and the geography of the programme will continue to widen in order to utilise the potential impact of the Tech Valleys investment across the wider northern south Wales valleys and to help lever-in collaborative investment such as with the Cardiff Capital Region Northern Valleys Initiative."*[19]

**23.** Yn y sesiwn dystiolaeth ar gyfer y Gyllideb Ddrafft eleni, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau fod tua £40 miliwn[20] o'r targed o £100 miliwn wedi'i wario. Pan ofynnwyd iddi a oedd modd cyflawni'r targed o £100 miliwn, dywedodd:

> *"I think those will be decisions of future budgets. But, certainly, there's no lack of ambition, no lack of opportunity, I think, to spend, particularly in supporting businesses with skills."*[21]

**24.** Holodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Cabinet am y ffaith bod £60 miliwn yn weddill i gyflawni'r ymrwymiad, gyda dim ond dwy flynedd ar ôl i'w wario pe bai Llywodraeth Cymru am ei gyflawni o fewn y dyddiad cau. Roedd yr Aelodau hefyd yn awyddus i ddeall y cysylltiad rhwng Cymoedd Technoleg a buddsoddiadau eraill fel y £2 biliwn[22] i uwchraddio ffordd Blaenau'r Cymoedd. Wrth sôn am sicrhau bod gogledd y Cymoedd yn cael cymaint o fuddsoddiad â phosibl, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"we've set in train the work between the northern Valleys initiative and Tech Valleys in order to try and make sure that what we're offering is coherent. And it's not just the Tech Valleys budget, of course, which can benefit this space. We've got our property portfolio budget, which I'm really keen, again, is used to support development around the A465 to maximise the benefits that we receive from that particular investment."*

[19] Llywodraeth Cymru: Ymateb i Waith Craffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26
[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 401
[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 403
[22] Bbc.co.uk 'Road from hell' fully reopens after 23 years

**25.** Nod Cymoedd Technoleg oedd creu o leiaf 1,500 o swyddi cynaliadwy newydd. Mae ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i adroddiad cyllideb blaenorol y Pwyllgor yn nodi bod 700 o swyddi wedi cael eu cefnogi ond nid yw'n glir sut mae cefnogi swyddi yn gysylltiedig â'r bwriad gwreiddiol o greu o leiaf 1,500 o swyddi cynaliadwy.[23] Cynigiodd yr Ysgrifennydd Cabinet roi rhagor o fanylion am y 700 o swyddi a gefnogwyd yn ysgrifenedig yn dilyn y sesiwn.[24]

### Ein barn ni

Rydym yn pryderu nad yw rhaglen Cymoedd Technoleg yn cyflawni'r hyn a ymrwymwyd i'r gymuned leol yn ôl yn 2017. Mae'r heriau economaidd hirsefydlog sy'n wynebu'r ardal, a'r cyfleoedd clir i ddefnyddio'r cyllid i ategu'r buddsoddiad yn yr A465 i fynd i'r afael â'r rhain, yn ei gwneud yn siomedig nad yw'r broses o gyflwyno'r cyllid wedi bod gryn dipyn yn gynt.

Er y gall ffrydiau ariannu eraill ategu'r gefnogaeth a ddarperir drwy raglen Cymoedd Technoleg, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £100 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd i gefnogi menter Cymoedd Technoleg. Dylai lynu at yr ymrwymiad hwnnw i'r cymunedau lleol yr addawyd iddynt y byddai buddsoddiad yn cael ei wneud. Fodd bynnag, gan ei bod wedi cymryd 8 mlynedd i wario £40 miliwn ar y prosiect hwn, mae gennym bryderon y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu buddsoddi'r £60 miliwn sy'n weddill mewn dwy flynedd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn y mae'n credu y gellir ei gyflawni ar gyfer prosiect Cymoedd Technoleg a chyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer hwnnw.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r targed o £100 miliwn ar gyfer Cymoedd Technoleg, egluro'r hyn y gellir ei gyflawni ar gyfer prosiect Cymoedd Technoleg, a chyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer hwnnw.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru lynu at yr ymrwymiad Cymoedd Technoleg a buddsoddi gweddill yr arian ar gyfer y prosiect cyn gynted â phosibl.

## Cynhyrchiant a chystadleurwydd

**26.** Yn eu tystiolaeth at y Pwyllgor Cyllid, mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn nodi:

---

[23] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26
[24] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 442

> *"Substantial recent revisions to ONS data on the labour market (including historical data) have cast new light upon Welsh productivity. Wales has been experiencing somewhat stronger growth in output (GVA) post-pandemic but also substantially weaker and flat employment trends well below post-pandemic levels together with higher and rising inactivity. However, this implies somewhat more stronger productivity trends relative to most English regions, comparable to Scotland and London, even if productivity levels are still lagging far behind."*[25]

**27.** Roedd gan FSB Cymru bryderon hefyd ynghylch cynhyrchiant:

> *"The Welsh Government could help restore confidence amongst business owners that they can work together to deliver a successful partnership for growth by reviewing, developing and growing business support funding in areas which could drive up productivity."*[26]

**28.** Yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft, amlinellodd Fforwm Cynhyrchiant Cymru dair elfen o'r her o ran cynhyrchiant Cymru:

- Mae Cymru yn rhan o 'benbleth cynhyrchiant' y DU, sef arafiad mewn twf cynhyrchiant ledled y DU ers argyfwng ariannol 2008;
- Mae cynhyrchiant Cymru yn sylweddol is na chyfartaledd y DU (mae ystadegau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod allbwn fesul awr 15% yn llai na chyfartaledd y DU a'r isaf o'r holl wledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr), gyda fawr ddim tystiolaeth bod hyn wedi symud tuag at y cyfartaledd dros amser.
- Mae amrywiad sylweddol mewn cynhyrchiant yng Nghymru, ac mae gan ardaloedd fel Powys, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych rai o'r lefelau cynhyrchiant isaf yn y DU.[27]

---

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Ymateb y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Ymateb FSB Cymru i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Ymateb Fforwm Cynhyrchiant Cymru i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

**29.** Dywedodd yr Athro Melanie Jones o Fforwm Cynhyrchiant Cymru wrth y Pwyllgor Cyllid fod gan y Fforwm set o ddangosyddion yr oedd o'r farn a fyddai'n arwain at gynhyrchiant gwell pe baent yn gwella; aeth ymlaen i ddweud bod Cymru yn gyson yn y coch. Dywedodd yr Athro Jones wrth aelodau'r Pwyllgor Cyllid y byddai cywiro hyn yn golygu buddsoddiad yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Aeth ymlaen i dynnu sylw at feysydd eraill yr oedd angen gwaith arnynt hefyd gan ddweud:

> *"We have some challenges around a relatively high proportion of the population with low skills. We also have challenges around health, so a relatively high concentration of people with long-term limiting health problems. We also have, just by our geography, a relatively peripheral, a lack of agglomeration economy. We often think about productivity being highest in concentrations where you've got well-connected urban centres. So, things like investment in infrastructure, transport, digital infrastructure are all the kind of factors that we can't pin down exactly what they're going to do to Wales's productivity, but if you invest in those areas, we believe that that would also improve productivity."*[28]

**30.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, gwnaeth y Fforwm restr o argymhellion:

- Mae angen i Lywodraeth Cymru gwneud ymrwymiad hirdymor i wella cynhyrchiant, gydag arweiniad annibynnol a mesurau asesu perfformiad.
- Dylai cynllun twf cynhyrchiant cenedlaethol nodi blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir i gefnogi twf cynhyrchiant.
- Mae angen i Gymru gael sgwrs genedlaethol ar gynhyrchiant. Mae cydweithio rhwng llunwyr polisïau, busnesau, darparwyr gwasanaethau sector cyhoeddus, ac unigolion yn hanfodol i fynd i'r afael â maint yr her.
- Dylai cymorth busnes gynnwys cyngor, arweiniad ac arferion gorau o ran sut i gyflawni twf cynhyrchiant, a manteision hyn.
- Dylid canolbwyntio ar dwf cynhyrchiant y sector cyhoeddus fel ffordd o gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

[28] Pwyllgor Cyllid, 20/11/2025, Paragraffau 21-22

- Mae mynd i'r afael â her cynhyrchiant Cymru yn brosiect hirdymor dros fwy nag un cenhedlaeth. Bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth mewn pobl a seilwaith.[29]

**31.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor ar 3 Rhagfyr yn nodi:

> *"Er bod cynhyrchiant y DU wedi gostwng 0.2% yn 2023, cynyddodd cynhyrchiant Cymru 1.3%. O'r 12 rhanbarth ar Lefel Diriogaethol Ryngwladol 1 sy'n cynnwys Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a 9 rhanbarth yn Lloegr, daeth Cymru yn ail o ran twf cynhyrchiant rhwng 2022 a 2023. Mae twf cynhyrchiant Cymru (14.1%) wedi bod yn uwch na'r twf ar gyfer y DU gyfan (10.5%) ers 2009."*[30]

**32.** Ar 8 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad o gynhyrchiant busnesau bach a chanolig. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith, o ystyried bod busnesau bach a chanolig yn bwysicach i economi Cymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, fod cefnogi twf mewn cynhyrchiant busnesau bach a chanolig "felly yn hanfodol i wella perfformiad cynhyrchiant yr economi gyfan".[31]

**33.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth Aelodau:

> *"We absolutely recognise that productivity is a challenge, and it's something that the First Minister has taken a strong personal interest in as well. We've actually had specific Cabinet meetings looking at productivity, and we recognise that it is an issue that is not just for the economy department; actually, this is a cross-Government endeavour, because things such as investment in transport, investment in education, all make a difference in terms of productivity.*
>
> *There's definitely, though, things that we can be doing in our particular portfolio, and that very much is about the investment that we're making in skills. That's a particular priority for us in Government, and you'll see the uplifts in relation to apprenticeships, for example, within the portfolio. We've also had some really good meetings with the representatives from the Wales productivity forum, looking*

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Ymateb Fforwm Cynhyrchiant Cymru i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27
[30] Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol, 3 Rhagfyr 2025
[31] Llyw.Cymru Cenhadaeth economaidd: crynodeb o gynhyrchiant mentrau bach a chanolig

> *specifically at their research and what that means for us here in Wales."*[32]

### Ein barn ni

Mae cynhyrchiant yn her barhaus i'r DU, ac i Gymru yn benodol. Mae ein cyfradd cynhyrchiant wael yn ein gwneud yn llai cystadleuol, ac yn effeithio'n uniongyrchol ar incwm a safonau byw aelwydydd. Byddai cynyddu cynhyrchiant hefyd yn arwain at dderbyniadau treth uwch a mwy o adnoddau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Er ein bod yn derbyn nad yw mynd i'r afael â'r her yn hawdd, ac y bydd angen yr ymrwymiad hirdymor a'r camau cydlynol a nodir gan Fforwm Cynhyrchiant Cymru – mae angen i'r mater hwn fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a llywodraethau'r dyfodol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiad lefel uchel i gynyddu cynhyrchiant yn y Gyllideb Derfynol ac ystyried gweithredu argymhellion Fforwm Cynhyrchiant Cymru, yn enwedig o ran creu cynllun cynhyrchiant cenedlaethol, i gefnogi'r nod hwn.

## Cymorth cyflogaeth ac anweithgarwch economaidd

**34.** Mae anweithgarwch economaidd wedi cynyddu ers 2019, ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu "atal a gwrthdroi" y cynnydd hwn, ac ymateb i her salwch hirdymor.[33]

**35.** Mae papur diweddar gan Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru yn tynnu sylw at yr her y mae Cymru yn ei hwynebu o ran cyflogaeth ac anweithgarwch economaidd. Nodir yn y papur:

> *"Wales' economic inactivity rate currently stands at 25.6%, which is higher than the UK average of 21.6%, making Wales the second highest among UK nations after Northern Ireland (ONS). Coupled with economic inactivity, the latest quarterly figures also showed that Wales had the lowest employment rate of working age adults of any*

[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraffau 318-319
[33] Llywodraeth Cymru, Dogfen ymgynghori: Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU
yng Nghymru

> *UK nation or region at just 69.9%, compared to a UK average of 75%."*[34]

**36.** Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru yn dymuno i Lywodraeth Cymru osod targed i gau'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU, a fyddai o dan y sefyllfa bresennol yn golygu y byddai angen o leiaf 60,000 yn fwy o bobl i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith.[35]

**37.** Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru wedi galw am wario £180 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gymorth cyflogaeth, yn benodol i helpu pobl sy'n economaidd anweithredol i gael gwaith.[36] Mae'n awgrymu, dros 10 mlynedd, y byddai buddsoddiad o £1.8 biliwn (£180 miliwn y flwyddyn) yn cael rhwng 35,000 a 65,000 o bobl i mewn i fyd gwaith, gan gyfrannu £1.4 biliwn ychwanegol mewn cynnyrch domestig gros a gostwng gwariant ar les £300 miliwn i £500 miliwn.[37] Fodd bynnag, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru o'r farn y gellid cymryd nifer o fesurau eraill i leihau costau ychwanegol y dull hwn, er enghraifft creu Rhwydwaith Cymorth Cyflogaeth i Gymru i fynd i'r afael â natur dameidiog y ddarpariaeth bresennol, a gweithio gyda chyflogwyr i wella'r gyfradd cadw gweithwyr anabl.

**38.** Mae eu papur yn awgrymu nifer o ddulliau i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno cymorthdaliadau cyflog a/neu ostyngiadau treth i gyflogwyr sy'n cyflogi pobl ifanc sy'n economaidd anweithredol, partneru â chyflogwyr i gynnig rhaglenni 'ennill wrth ddysgu', a chyflwyno rhaglen arloesol ar gyfer anweithgarwch economaidd ledled Cymru.[38]

**39.** Twf Swyddi Cymru+ yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru sy'n darparu pecyn cymorth cyfannol ac wedi'i theilwra i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r dyraniad cyllid ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ wedi cynyddu o £32 miliwn yn 2025-26 i £34 miliwn yn 2026-27. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn awgrymu bod y cyllid ychwanegol hwn o £2 filiwn wedi'i fwriadu i gefnogi'r galw ychwanegol ar gyfer y rhaglen.[39]

**40.** Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol 'Mynd i'r Afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd'. Mae'r adroddiad yn

[34] Iod.com IOD Wales: Economic Inactivity (Saesneg yn unig)
[35] Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru, Cynllun Gwaith, Iechyd a Sgiliau ar gyfer Cymru
[36] Ibid.
[37] Ibid.
[38] Iod.com IOD Wales: Economic Inactivity (Saesneg yn unig)
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur Ysgrifennydd y Cabinet

egluro mai'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd yw'r gwahaniaeth mewn pwyntiau canran yn y gyfradd gyflogaeth rhwng pob anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Mae'n nodi: "Rhwng 2015-16 a 2023-24, mae'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd yng Nghymru wedi gostwng o 35.4 pwynt canran i 30.9 pwynt canran. Fodd bynnag, mae'n gyson uwch yng Nghymru na rhannau eraill o'r DU."[40]

**41.** Yr hyn sy'n ganolog i'r adroddiad yw "y dylai'r rhai sydd eisiau, ac sy'n gallu, gael urddas o weithio". Dau ganfyddiad allweddol yn yr adroddiad yw:

- Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r bylchau, a chynnwys rhagor o hyblygrwydd ym meini prawf cymhwystra rhaglenni cymorth allweddol ar gyfer ymgeiswyr anabl.

- Dylai darpariaeth cyflogaeth â chymorth yn y dyfodol "adeiladu ar lwyddiant cynlluniau fel y prosiect Engage to Change", a dylai hyfforddiant swyddi arbenigol fod yn flaenoriaeth ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.[41]

**42.** Roedd Engage to Change yn brosiect a oedd â'r nod o "gefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anhawster dysgu, anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gyflawni eu llawn botensial". Roedd y gefnogaeth hon yn cynnwys goresgyn rhwystrau i gyflogaeth drwy roi sgiliau trosglwyddadwy a phrofiad gwaith i'r cyfranogwyr.[42]

**43.** Daeth prosiect Engage to Change i ben ar 31 Mawrth 2025.[43] Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am gymorth i alluogi pobl anabl i gael mynediad at waith a dywedodd wrth Aelodau y byddai'r cyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni cymorth cyflogaeth ehangach yn caniatáu iddynt gael eu teilwra'n fwy i anghenion unigol. Dywedodd:

> *"if you think about the support that the Jobs Growth Wales programme can offer, the additional £2 million in this budget allows for more targeted support. The Communities for Work Plus programme has very much targeted support for people who need it the most".*

[40] Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Os yw'r gefnogaeth yn gywir, amdani! Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd
[41] Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Os yw'r gefnogaeth yn gywir, amdani! Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd
[42] www.engagetochange.org.uk: Amdanom ni
[43] Anabledd Dysgu Cymru, Engage to Change comes to an end but the legacy lives on

**44.** Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn awyddus i weld y gwersi o Engage to Change yn cael eu dysgu yn y rhaglen gymorth cyflogadwyedd ehangach yr oedd y broses gaffael ar ei chyfer yn mynd rhagddo ar y pryd.[44] Dywedodd hefyd wrth yr Aelodau y byddai'n trafod awgrymiadau Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru ynghylch rhoi cymhellion i gyflogi pobl sy'n economaidd anweithredol gyda Llywodraeth y DU.[45]

**45.** Mae'r rhaglen arloesol ar gyfer anweithgarwch economaidd yn gynllun peilot i gefnogi dulliau lleol o leihau anweithgarwch economaidd, sy'n gweithredu ym Mlaenau Gwent, Sir Ddinbych a Chastell-nedd Port Talbot. Eglurodd y Gweinidog:

> *"The trailblazer scheme, Chair, in this year, was committed £10 million by the UK Government. It's a UK Government-funded programme. There are trailblazers across the country, and we have a Welsh trailblazer, which are the three areas, and there will be up to £10 million again this year. It's not in this draft budget we see, but we expect it to come through in an in-year transfer later down the line. How local authorities access that programme is they draw down through us. So, it's passported to us and then we offer a grant scheme to the local authorities."*[46]

**46.** Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y prosiectau'n gwneud 'gwaith gwirioneddol anhygoel' a'i fod yn gweithio i sicrhau y gellid dysgu gwersi nid yn unig o'r prosiect yng Nghymru ond hefyd o'r prosiectau eraill ledled y DU. Eglurodd y byddai'r gwersi nid yn unig ar gyfer yr hyn sy'n digwydd ar ôl hynny, ond hefyd ar gyfer y rhaglen cymorth cyflogadwyedd a oedd ar y gweill. Nododd y byddai gwersi'n cael eu dysgu o'r dulliau ym mhob maes wrth symud drwy'r cam caffael.[47]

**47.** Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau y byddai Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Trailblazers, yn dyrannu £16 miliwn i gefnogi Cymunedau am Waith a Mwy. Dywedodd fod y ddwy gronfa yn fan cychwyn da iawn. Nododd fod y gyllideb yn un barhaus ar gyfer y trywydd presennol, ynghyd â'r rhaglen arloesol, ac y byddai hynny o fudd er mwyn buddsoddi ymhellach i gael pobl i mewn i waith, sef uchelgais y ddwy raglen.[48]

---

[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 538
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 540
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 473
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 374
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 482

**48.** Pan ofynnwyd iddo am gyllid ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau:

> *"I think the additional £2 million is a welcome investment in the Jobs Growth Wales programme. I do think it's sufficient to meet the demand of the programme, and it's been a successful programme since it started. I think it's helped over 5,000 NEETs per year since the programme started, and the £2 million will go on to support the programme further. It'll help it sustain delivery capacity and strengthen that target to support"*[49]

**49.** Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog a allai Llywodraeth Cymru ddiwallu unrhyw alw am gymorth ychwanegol o ganlyniad i gynnydd mewn cyfraddau diweithdra neu gwmnïau'n cau. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"ReAct is a demand-led programme. We can't envisage what the demand might be in the future, but I think in the draft budget, we're confident that we would be able to react in the way that the committee would like to see us do, and I think that's reflected in the budget of where we are, that we could meet the demand of the programme."*[50]

### Ein barn ni

Mae anweithgarwch economaidd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i wrthdroi hyn, ac i ymateb i her salwch hirdymor. Bydd rhaglenni cymorth cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â darpariaeth Llywodraeth y DU, yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi pobl i gael gwaith a chyflawni amcan Llywodraeth Cymru.

Cyn i'r rhaglen gymorth cyflogadwyedd newydd ddod yn weithredol yn 2027, mae angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei dyraniadau i gael yr effaith fwyaf posibl ar anweithgarwch economaidd yn y gyllideb ddrafft hon. Dylai ystyried cynigion diweddar gan sefydliadau fel Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru wrth wneud hynny.

---

[49] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 484
[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 27/11/202526/11/2025 Paragraff 489

Rydym yn cefnogi'n gryf brif ragdybiaeth adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar fynd i'r afael â'r bwlch cyflogaeth anabledd, sef y dylai'r rhai sydd eisiau, ac sy'n gallu, gael urddas o weithio.

Roeddem yn siomedig gyda'r diffyg cyllid penodol i barhau â gwaith Engage to Change. Rydym yn gwerthfawrogi bod y Gweinidog yn bwriadu cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen honno i ddatblygu rhaglen gymorth cyflogaeth ehangach a fydd yn dechrau yn 2027, a bod y cyllid ychwanegol ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ yn caniatáu cymorth sydd wedi'i dargedu'n fwy. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai fod bwlch yn y ddarpariaeth yn y cyfamser i bobl ag anableddau dysgu y mae angen y gefnogaeth wedi'i theilwra a oedd yn cael ei chynnig gan Engage to Change. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fonitro hyn, a chymryd camau i sicrhau bod darpariaeth addas ar gael lle mae bylchau.

Mae diweithdra yn cynyddu'n sylweddol ac mae Banc Lloegr wedi rhybuddio y gallai'r swigen deallusrwydd artiffisial chwalu. Rhaid i Lywodraeth Cymru gael cynllun ar gyfer cynnydd mewn diweithdra gan fod helpu pobl sydd wedi colli eu swydd i ddod o hyd i un newydd yn brydlon yn hanfodol ar gyfer eu lles ac i'r rhai sy'n dibynnu ar eu hincwm. Mae ymyrraeth gynnar hefyd yn fwy effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus y gall ariannu rhaglenni fel ReAct+ os bydd y cynnydd yn cyflymu neu os bydd naid sydyn.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir defnyddio ffrydiau ariannu presennol a newydd orau i helpu pobl sy'n economaidd anweithredol i gael gwaith. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai archwilio sut y gall cynigion a ddatblygwyd yn ddiweddar gan Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru gyfrannu, ac ystyried a ellid defnyddio cyllid ychwanegol o gyllideb 2026-27 i dreialu unrhyw elfennau o'r cynigion hyn cyn cyflwyno'r rhaglen gymorth cyflogadwyedd newydd yn 2027.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r buddsoddiad uwch mewn gwasanaethau cymorth cyflogaeth i sicrhau ei bod yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at y farchnad swyddi. Os gwelir bylchau yn y ddarpariaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i ddarparu gwasanaethau arbenigol tebyg i'r rhai a gynigir o dan y rhaglen Engage to Change.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn ymateb i gynnydd pellach mewn diweithdra, yn enwedig os bydd digwyddiad sydyn yn effeithio ar y farchnad lafur, a sut y mae'n sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer rhaglenni fel ReAct+, fel eu bod yn gwbl barod i ymateb i unrhyw gynnydd mewn

diweithdra. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru hefyd sicrhau bod paratoi ar gyfer cynnydd posibl mewn diweithdra yn rhan o'i chynlluniau ariannol.

## Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

**50.** Ym mis Medi ymwelodd y Pwyllgor â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Fel rhan o'r ymweliad hwnnw, cyflwynodd y Ganolfan weledigaeth i'r Aelodau o adfywiad economaidd yn yr ardal wedi'i ysgogi gan y Ganolfan, a'r potensial i greu swyddi diogel â chyflogau da mewn ardal y mae dad-ddiwydiannu wedi effeithio arni.

**51.** Hyd yn hyn, mae'r Ganolfan wedi cael £50 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a £20 miliwn gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, bydd angen buddsoddiad preifat o £330 miliwn ar gyfer y prosiect, ac mae'r Ganolfan yn ceisio sicrhau hynny ar hyn o bryd.[51]

**52.** Yn ein sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 3 Rhagfyr, dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod yn deall bod tîm y Ganolfan yn bwriadu ailgyhoeddi galwad am fuddsoddiad yn 2026. Nododd y byddent gwneud yr hyn y gallent i'w gefnogi.[52] Dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau fod y swm llawn bellach wedi'i ddyrannu i'r Ganolfan ac y bydd y ffigur bron â chyrraedd y gwariant llawn erbyn diwedd 2026. Ychwanegodd y swyddog fod tua £5 miliwn o'r cyllid hwn yn amodol ar nifer o benderfyniadau.[53]

### Ein barn ni

Rydym wedi ymgymryd â gwaith yn ymchwilio i sefydlogrwydd ariannol y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Gyda'r holl gyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i neilltuo i'r Ganolfan erbyn hyn, a fydd bron â gwario'r cyfan erbyn diwedd 2026, rydym yn pryderu y gallai hyn gael canlyniadau cyllidebol yn ystod y flwyddyn. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ganddi gynlluniau wrth gefn i sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni o'r buddsoddiad hwn rhag ofn na fydd buddsoddiad ar gael gan y sector preifat cyn i'r holl arian cyhoeddus gael ei wario.

[51] Gcre.wales Global Centre of Rail Excellence Q&A (Saesneg yn unig)
[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 03/12/2025 Paragraff 11
[53] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 22

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi cynlluniau wrth gefn yn glir ochr yn ochr â chyhoeddi'r gyllideb derfynol er mwyn sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni o'u buddsoddiad yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd os na fyddant yn sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat yn y flwyddyn galendr nesaf.

## Sgiliau

**53.** Medr yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae Medr wedi bod yn gweithredu ers 1 Awst 2024, ac yn gyfrifol am reoleiddio a chyllido addysg bellach, addysg uwch (gan gynnwys ymchwil ac arloesi), prentisiaethau, dysgu cymunedol i oedolion, a dosbarthiadau chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol.

**54.** Mae Medr yn cael ychydig dan £150m o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio o dan y BEL ar gyfer y Cam Gweithredu Prentisiaethau. Mae'r BEL wedi cynyddu ychydig dros £2 filiwn o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Mae papur y Gweinidog yn awgrymu mai diben y cynnydd hwn yw cefnogi'r pwysau o ganlyniad i ariannu dechreuadau ychwanegol yn 2025-26.[54]

**55.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, wrth sôn am y berthynas rhwng Medr a Llywodraeth Cymru, nododd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch nad yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn darparu i Weinidogion gymeradwyo penderfyniadau ariannu Medr. Aeth ymlaen i egluro ei bod yn bwysig bod Medr yn gweithredu'n briodol o hyd braich ond nododd y bydd Medr yn destun monitro ffurfiol chwarterol drwy gyfarfodydd â Gweinidogion a swyddogion. Nododd fod ei swyddogion yn cyfarfod â chydweithwyr Medr yn wythnosol i gydweithio ar faterion polisi ac i roi arweiniad parhaus ar faterion amserol a blaenoriaethau gweinidogol.[55]

**56.** Dywedodd Medr wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mai un o'i flaenoriaethau ar gyfer y £380m nad yw wedi'i ddyrannu fyddai'r ddarpariaeth prentisiaethau. Eglurodd y sefydliad ei fod am sicrhau ei fod yn gallu parhau i gefnogi dysgwyr sydd eisoes wedi dechrau ar eu taith prentisiaeth. Nododd ei fod ar y trywydd iawn i greu 100,000 o gyfleoedd prentisiaeth yn ystod tymor y Senedd hon, ond bod angen gwneud yn siŵr ei fod yn parhau i gefnogi'r dysgwyr hynny yn ogystal ag ymateb i'r galw a'r tef mewn prentisiaethau. Nododd fod hwnnw'n un o'r pwysau y bydd yn tynnu sylw'r Llywodraeth ato.[56]

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Gweinidog
[55] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 16/01/2025, Paragraff 143
[56] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 19/11/2025, Paragraff 260

**57.** Ystyriodd yr Aelodau y mater o'r pwysau ariannol a ragwelir yn y dyfodol, o ganlyniad i gefnogi prentisiaid i barhau â'u hastudiaethau ar ôl iddynt ddechrau, gyda'r Gweinidog. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Medr wedi amcangyfrif yn wreiddiol y byddai'r pwysau ariannol hyn yn y dyfodol yn costio £6 miliwn, fodd bynnag, bod hyn wedi'i adolygu i lawr i £3.3 miliwn. Aeth ymlaen i ddweud bod y cynnydd o £2.4 miliwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i ateb y galw.

**58.** Yn ôl papur tystiolaeth y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Medr barhau i gynnig dyraniad o gyllid o'r gyllideb prentisiaethau i gefnogi prentisiaethau lefel gradd. Roedd dyraniadau prentisiaeth gradd Medr ar gyfer 2025-26 yn dangos y bydd y dyraniad yn cwmpasu fframweithiau ym meysydd adeiladu, digidol, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch.[57]

**59.** Trafododd yr Aelodau alwadau a wnaed i ehangu prentisiaethau gradd. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn hyderus bod y targed wedi'i gyrraedd o ehangu prentisiaethau gradd oherwydd gan fod mynediad at brentisiaethau gradd wedi'i ehangu.[58] Fodd bynnag, trafododd hefyd y potensial ar gyfer ehangu'r ystod o bynciau a gynigir gan nodi:

> *"we look at supporting degree apprenticeships where they add real value to the economy. So, we look particularly in the engineering space, in digital, and in manufacturing spaces. I think the budget that we do provide, both through this portfolio and the education portfolio, goes some way to doing that. If we were to look at expanding degree apprenticeships even further than we already do, then that would require more investment, no doubt. But I think that's for a future Government to set their priorities."*[59]

### Ein barn ni

Er bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod Medr yn gorff hyd braich ac felly nad yw'n cael cyfarwyddiadau'n uniongyrchol gan Weinidogion, mae gennym ddiddordeb mewn deall yr arweiniad y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Medr a sut mae hynny'n troi'n arian sy'n cael ei wario. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth benodol am yr arweiniad a roddir ynghylch y BEL ar gyfer y Cam

[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Gweinidog
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 523
[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 515

Gweithredu Prentisiaethau a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl i Medr ei wneud.

Yn unol â'n hadroddiad cyllideb drafft diwethaf a'n hadroddiad ar Lwybrau Prentisiaeth, mae'r Pwyllgor o'r farn, er bod annog pobl i wneud prentisiaethau yn bwysig, ei bod yr un mor hanfodol i brentisiaid sydd eisoes yn astudio allu parhau i symud ymlaen drwy'r lefelau sgiliau sydd ar gael i helpu dysgwyr i gyrraedd y lefel orau posibl yn y proffesiwn o'u dewis. Oherwydd hynny, roeddem yn bryderus o glywed am y pwysau a ragwelir ar y gyllideb prentisiaethau.

Rydym yn credu'n gryf bod angen i'r gyllideb fod yn ddigon cadarn i gefnogi dysgwyr newydd a'r dysgwyr presennol yn y dyfodol o leiaf, ac am gael sicrwydd bod hyn yn wir. Ar wahân i hynny, rydym o'r farn bod y gyllideb prentisiaethau a ddyrannwyd i Medr yn gwneud achos cryf dros fwy o fuddsoddiad o'r arian sydd heb ei ddyrannu.

Roeddem yn ymddiddori ym marn y Gweinidog ar ehangu prentisiaethau gradd a hoffem glywed ei farn ynghylch a ddylid ychwanegu mwy o bynciau at y rhaglen, faint y gallai hynny ei gostio a beth allai'r manteision fod i ddysgwyr a'r economi.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth benodol i'r Pwyllgor am yr arweiniad a roddir ynghylch y BEL ar gyfer y Cam Gweithredu Prentisiaethau a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl i Medr ei wneud.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n union sut y bydd yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol yn y dyfodol ar y gyllideb prentisiaethau, gan gynnwys, os oes angen, sut y bydd yn dod o hyd i gyllid ychwanegol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn gryf ddefnyddio arian sydd heb ei ddyrannu i gefnogi'r sector prentisiaethau ac yn fwy cyffredinol i gefnogi mynediad prentisiaid at gyfleoedd astudio.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog amlinellu ei syniadau ynghylch a ddylid ychwanegu mwy o bynciau at y rhaglen prentisiaeth gradd, faint y gallai hynny ei gostio a beth allai'r manteision fod i ddysgwyr a'r economi.

# 2. Masnach a ffiniau

## Dyraniadau

**60.** Er bod masnach ryngwladol yn fater a gadwyd yn ôl, gall cytundebau masnach gynnwys neu fod â goblygiadau sylweddol i faterion datganoledig, megis yr economi, amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Mae gan Weinidogion Cymru nifer o gyfrifoldebau i gyflawni trefniadau y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth y DU mewn trafodaethau masnach. Mae dyletswydd arnynt hefyd o dan drefniadau cyfansoddiadol i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig hefyd o ran hyrwyddo masnach yng Nghymru a chefnogi mewnforwyr ac allforwyr.

**61.** Mae llinellau BEL sy'n gysylltiedig â masnach i'w gweld mewn dau MEG:

- Dwy BEL ar Reoli'r Ffin (MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig); a
- BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi (MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio).

**62.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig debyg i'r hyn a gyflwynwyd ar gyfer gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 heb lawer o ddiwygiadau. Pan awgrymwyd iddynt nad oedd yr hyn a ddiweddarwyd yn ymdrin yn ddigonol â datblygiadau arwyddocaol eleni mewn masnach ryngwladol, masnach rhwng y DU a'r UE a rheolaethau'r ffin, cadarnhaodd y gweinidogion eu bod yn fodlon bod eu tystiolaeth ysgrifenedig yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

## Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

**63.** Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gwaith comisiynu a staffio terfynol ar gyfer Safle Rheolaethau'r Ffin Caergybi, a pheidio â bwrw ymlaen ag adeiladu safleoedd rheolaethau'r ffin yn Abergwaun a Doc Penfro, gan ragweld cytundeb ar fesurau iechydol a ffytoiechydol rhwng y DU a'r UE. Yn dibynnu ar ei gynnwys, gallai cytundeb ar fesurau iechydol a ffytoiechydol leihau, neu hyd yn oed ddileu, yr angen am reolaethau masnach ar ôl Brexit. Mae'r broses o weithredu'r rhain fesul cam wedi'i nodi ym Model Gweithredu Targed y Ffin.[60]

[60] Llyw.Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Rheolaethau'r Ffin ar fewnforion i Gymru o Iwerddon

**64.** Y dyraniad ar gyfer y BEL Rheolaethau'r Ffin yw £4.171 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 10.6% o'i gymharu â'r Llinell Sylfaen Ddiwygiedig ar gyfer 2025-26 ond cynnydd o 1.7% o'i gymharu â 2025-26. Mae papur y Dirprwy Brif Weinidog yn egluro'r canlynol:

> *"Er bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ceisio sicrhau cytundeb SPS mesurau iechydol a ffytoiechydol cynhwysfawr gyda'r UE fel rhan o Gytundeb Ailosod y DU/UE, y Model Gweithredu Targed y Ffin yw'r polisi cyfredol o hyd.*
>
> *Rydym yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU ar union natur y fargen Ailosod a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer rheolaethau SPS a bioddiogelwch y DU yn y tymor byr a'r hirdymor."*[61]

**65.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y dyraniadau ar gyfer 2026-27 yn cyd-fynd â'r symiau gwreiddiol yr oedd eu hangen i gwblhau safleoedd rheolaethau'r ffin yng Nghaergybi, Abergwaun a Doc Penfro i baratoi ar gyfer y Model Gweithredu Targed y Ffin.[62]

**66.** Mae'r dyraniad cyfalaf BEL ar gyfer 2026-27 yn cynnwys cyfraniad o £28.984 miliwn gan Lywodraeth y DU. Cyllid cyfalaf sydd wedi'i glustnodi ar gyfer safleoedd rheolaethau'r ffin yw hwn. Mae hyn yn dilyn cyfraniad cyfalaf o £28.955 miliwn a chyfraniad refeniw o £357,000 gan Drysorlys EF tuag at gostau adeiladu safleoedd rheolaethau'r ffin ar gyfer 2025-26.

**67.** Aeth ymlaen i nodi, pe na bai angen y safleoedd mwyach:

> *"any underspend of UK Government funding [for Border Control Posts] will be returned to His Majesty's Treasury".*[63]

**68.** Trafododd y Dirprwy Brif Weinidog yr anghydfod hirsefydlog rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch pwy ddylai dalu'r gost o gynnal safleoedd rheolaethau'r ffin:

> *"Bear in mind that we may still need these facilities. That's why we're still standing them up ready and maintaining them, in case they are*

[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Dirprwy Brif Weinidog
[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 237
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 238

> *needed. However, there are also the running costs of these. So, it's not just the capital expenditure from HM Treasury and from us as well.*
>
> *And bear in mind that our position is that this is a cost incurred because of EU withdrawal. On that basis, the cost should fall to the UK Government, not to us. We maintain that position. We maintain it publicly. We maintain it in direct discussions with the UK Government.*
>
> *But the running costs are also there as well. So, we'll have to look at that as that goes forward. […] We might find a situation where these are required for some sort of border controls, and then we will have to look at that again..”*[64]

**69.** Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog faint sydd wedi cael ei wario ar safleoedd rheolaethau'r ffin yng Nghymru:

> *“up to the end of the 2024-25 year, we've spent £55.1 million developing BCPs in Wales. This is the cost of the friction or the decisions that were taken. However, £47 million of that has been contributed by HM Treasury. As I described, if we find, going forward, that we don't need to continue investing, then we'll talk about that at that point. So, yes, that's a direct cost.”*[65]

**70.** Cytunodd i roi amcangyfrif i'r Pwyllgor ar gostau i fusnesau, gan gynnwys costau gweinyddol.

**71.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod cost cyfle, oherwydd bod y mater wedi cymryd llawer iawn o amser swyddogion a gweinidogion hefyd, dros nifer o flynyddoedd.[66]

## Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

**72.** Mae'r dyraniad ar gyfer y BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi yn parhau i fod yn £3.753 miliwn sy'n cynrychioli toriad mewn termau real. Mae'r BEL yn cynnwys:

- £3.572 miliwn i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio; a

[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 254
[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 252
[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 256

- £0.180 miliwn ar gyfer mewnfuddsoddi.

**73.** Yn ystod tystiolaeth lafar ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod cynnal cyllideb wastad ar gyfer y cylch cyllideb blaenorol (2024-25) wedi arwain at lai o weithgarwch, fel llai o ddigwyddiadau datblygu allforio.[67]

**74.** Nododd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet, a ddangosodd fod allforion nwyddau'n werth £17.1biliwn i Gymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, gostyngiad o £1.5 biliwn (8.2%) o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024.[68]. Nododd hefyd ostyngiadau mewn gwerthoedd a meintiau allforion ar gyfer y blynyddoedd cymharol blaenorol ers toriad o 10.5% i'r BEL hwn yn y gyllideb yn 2023-24.[69]

**75.** Pan ofynnodd yr Aelodau a oedd cysylltiad rhwng y toriad a'r gostyngiadau mewn allforion o flwyddyn i flwyddyn, atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"we'd have to be careful in terms of making that direct link, because, actually, the large bulk of exports go from businesses that don't actually need any Welsh Government support at all. So, our support tends to be for smaller businesses who are looking to export, potentially, for the first time, helping them open up new markets. So, I don't think you can make that direct correlation to the overall figure."*[70]

**76.** Aeth ymlaen i dynnu sylw at broblem bosibl gyda ffigurau masnach:

> *"we're aware that HMRC has announced they'll be correcting the UK overseas trade in goods statistics, which they intend to publish in January, but corrected figures will then be published in March. That's because mineral fuels and oils, including petroleum, which is a major export for us here, has resulted in some … misalignment of the data at HMRC, so it will be corrected for March. So, actually, we could see a significant difference in the overall figures."*[71]

[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 15/01/2025 Paragraff 180
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur Ysgrifennydd y Cabinet
[69] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2023-24
[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 274
[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 275

**77.** Aeth un o swyddogion yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud ei bod yn rhy gynnar i wybod yn union beth fyddai'r cywiriad ac y byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi gweld y ffigurau wedi'u cywiro cyn gwneud asesiad. Tynnodd sylw at y cyfnod hefyd fel un lle bu cryn dipyn o ansefydlogrwydd cyffredinol. Nododd ein bod wedi bod drwy gyfnod o COVID-19 a Brexit, ynghyd â gwrthdaro byd-eang. Nododd fod y ffigurau allforio cyffredinol, felly, yn amrywio'n fawr oherwydd digwyddiadau byd-eang.[72]

## Ein barn ni

O ystyried bod mesurau iechydol a ffytoiechydol yn fater datganoledig, a'r effaith sylweddol y mae cytundeb mesurau iechydol a ffytoiechydol rhwng y DU a'r UE yn debygol o'i chael ar ddatblygiad safleoedd rheolaethau'r ffin, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â ni ar y trafodaethau. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Roeddem yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ein galwad i roi diweddariadau chwarterol ar y trafodaethau mewn ymateb i'n hadroddiad ar yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft yn ei gwneud yn bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar gynnydd yn y maes hwn a'r effaith ddisgwyliedig ar bolisïau, gweithrediadau a chyllideb Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir ar ôl i'r Dirprwy Brif Weinidog gadarnhau bod £55 miliwn wedi'i wario hyd yn hyn ar safleoedd rheolaethau'r ffin a allai fod yn ddiangen.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i roi amcangyfrif o gostau i fusnesau sy'n ymwneud â safleoedd rheolaethau'r ffin a chostau gweinyddol sy'n ymwneud â'r drefn fasnach ar ôl Brexit.

Rydym yn derbyn ei bod yn gyfnod cythryblus i fasnach fyd-eang. Fodd bynnag, roeddem tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ar gymorth allforion a'r gostyngiad a nodwyd mewn allforion yn destun pryder.

Mae'r ffaith bod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wrthi'n adolygu ystadegau masnach y DU gyda'r nod o wneud cywiriadau yn bwrw amheuaeth ar gywirdeb ystadegau masnach Cymru a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, y Pwyllgor, ac eraill. Nid yw'n glir chwaith pa gyfnodau amser sydd o fewn cwmpas yr

[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 278

adolygiad hwn, ac felly gallai rhai o'r gostyngiadau sylweddol mewn allforion fod yn gywir gan fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyllideb wastad ar gyfer cymorth allforion. Mae hyn yn amharu ar ein gallu i ddeall pa mor effeithiol yw gweithgarwch Llywodraeth Cymru o ran dyraniadau yn y gyllideb ddrafft.

**Argymhelliad 16.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am effeithiau disgwyliedig trafodaethau'r DU a'r UE ar bolisïau, gweithrediadau a chyllideb Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran datblygu safleoedd rheolaethau'r ffin.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amcangyfrif o'r costau i fusnesau sy'n gysylltiedig â safleoedd rheolaethau'r ffin a'r costau gweinyddol sy'n ymwneud â'r drefn fasnach ar ôl Brexit.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gyfnodau chwarterol fydd yn cael eu cynnwys yn adolygiad Cyllid a Thollau ei Fawrhydi o ystadegau masnach y DU mewn ymateb i'r adroddiad hwn, a rhoi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'i chanfyddiadau erbyn mis Mawrth 2026.

# 3. Materion Gwledig

## Dyraniadau

**78.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ymdrin â’r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Materion Gwledig a Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol. Mae papur y Dirprwy Brif Weinidog yn nodi mai cyfanswm y dyraniad adnoddau ar gyfer y rhain yn £369.18 miliwn, sef cynnydd o £7.56 miliwn (2.1%) o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.[73]

**79.** Yn ôl y papur, cyfanswm y dyraniad cyfalaf yw £109.77 miliwn, fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys £28.98 miliwn o gyllid wedi'i glustnodi gan Drysorlys EF ar gyfer safleoedd rheolaethau’r ffin a drafodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Mae papur Llywodraeth Cymru yn nodi bod cymhariaeth debyg am debyg heb gynnwys y gyllideb rheolaethau’r ffin yn dangos cynnydd o £1.58 miliwn (2%) o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.[74]

## Cymorth amaethyddol

**80.** Mae BEL newydd wedi’i chreu yng nghyllideb eleni i ariannu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r BEL hwn, 2792 Cymorth Amaethyddol, yn disodli'r rhai ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol, y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig, a’r Cynllun Datblygu Gwledig. Dyrennir £295.59 miliwn i’r BEL cymorth amaethyddol, sy'n gynnydd o 2% o'i gymharu â chyfanswm y dyraniad a gafodd y cynlluniau blaenorol. Mae cyllid cyfalaf hefyd wedi cynyddu 2% i £68.29 miliwn. Mae'r papur yn nodi bod £380 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu, sy'n cynnwys £231 miliwn o adnoddau cyllidol, £136 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £13 miliwn o Gyfalaf Trafodion Ariannol.[75]

**81.** Mae ffermwyr wedi galw am gynnydd mewn cyllid cymorth amaethyddol, sydd wedi aros ar yr un lefel ers nifer o flynyddoedd. Awgrymodd NFU Cymru y dylid cynyddu'r dyraniad i ystyried chwyddiant – ac maent yn cyfrifo y byddai hynny'n golygu y dylai'r dyraniadau ar gyfer cymorth amaethyddol fod o leiaf £500 miliwn. Dywedodd y dylai cyllidebau materion gwledig a chymorth amaethyddol weld o leiaf gynnydd pro rata mewn dyraniadau yn unol â’r symiau ychwanegol o

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Dirprwy Brif Weinidog
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Dirprwy Brif Weinidog
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Dirprwy Brif Weinidog

gyllid a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru hyd at 2029-30 yn yr Adolygiad o Wariant 2025.[76]

**82.** Mae ymateb Undeb Amaethwyr Cymru i'r gyllideb ddrafft yn nodi bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gosod mwy o ofynion cymdeithasol ac amgylcheddol ar fusnesau ffermio sy'n cymryd rhan, ac y bydd cydymffurfio â'r rhain yn creu costau ychwanegol sylweddol. Maent yn mynd ymlaen i ddadlau o blaid cynnydd o fwy na £460 miliwn – yn seiliedig ar gyllideb gyfartalog Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE i Gymru ar gyfer cyfnod 2014 - 2020, a chyfrifydd chwyddiant Banc Lloegr.[77]

**83.** Ymatebodd y Dirprwy Brif Weinidog i'r cwestiwn am y gofynion ychwanegol a osodir ar ffermwyr gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan ddweud mai ochr arall y mater oedd mai'r cynllun yw'r unig un yn y DU, a mwy na thebyg yn Ewrop gyfan, sydd â thaliad gwerth cymdeithasol ynddo. Aeth y Dirprwy Brif Weinidog ymlaen i ychwanegu ei fod yn £107 fesul hectar. Nododd mai taliad gwerth cymdeithasol ydyw sy'n cydnabod nodweddion penodol ffermio Cymru, nodweddion fel ffermio ar raddfa fach a chanolig a phwysigrwydd y Gymraeg. Pwysleisiodd fod hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun.[78]

**84.** Newidiodd cyllideb Llywodraeth y DU 2024 gyllid amaethyddol ar gyfer gwledydd datganoledig, gan ei gynnwys o fewn grant bloc ehangach pob gwlad gan ddefnyddio fformiwla Barnett yn hytrach na chynnal dyraniadau neilltuedig, ar wahân.[79] Mae gan Gymru nifer sylweddol uwch o ffermwyr y pen, cynhyrchiant amaethyddol uwch, ac mae ffermio yn cyfrif am gyfran uwch o werth ychwanegol gros Cymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU.[80] Er mai dim ond tua 4.5% o boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru, mae gennym tua 11% o weithlu amaethyddol y DU yma yng Nghymru.[81]

**85.** Mae'r undebau ffermwyr wedi lleisio pryderon ynghylch y newid hwn. Mae NFU Cymru wedi dadlau dros fecanwaith teg i gynyddu cymorth amaethyddol, er mwyn adlewyrchu lefel y cynhyrchiant amaethyddol a geir yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU, yn hytrach na chynnydd ar sail y gyfran o'r boblogaeth

---

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Ymateb NFU Cymru (Saesneg yn unig)
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Ymateb Undeb Amaethwyr Cymru (Saesneg yn unig)
[78] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraffau 72-74
[79] FIW.co.uk, Farmers Weekly, Budget 2024: Barnett formula switch risks devolved ag funding (Saesneg yn unig)
[80] Senedd. Cymru, Ffeithiau a Ffigurau am Ffermio yng Nghymru
[81] Gov.uk, How is the UK agricultural industry structured and how is agricultural land used? (Saesneg yn unig)

drwy fformiwla Barnett, gan nodi bod hyn yn rhoi Cymru dan anfantais fawr.[82] Mae FUW yn rhannu'r pryderon ynghylch defnyddio Fformiwla Barnett i ariannu'r gyllideb amaethyddol.[83]

**86.** Ym mis Chwefror dywedodd y Prif Weinidog wrth Bwyllgor Dethol Materion Cymreig San Steffan ei bod yn teimlo bod y newid hwn yn destun pryder enfawr. Eglurodd:

> *"To be honest, we are not very happy with it. Let us not forget where we have come from. All this money in the past came via the EU, and there were very clear rules about how it would be spent. What proportion of that came to Wales was dependent on how many farms you had and what kind of farming they did.*
>
> *While the amount has been respected hitherto, this is about what happens in future in relation to the Barnett consequential. If you just do a Barnett consequential, you are talking about 5%, whereas when it comes to agriculture, we should be significantly higher than that."*[84]

**87.** Yn sesiwn y Pwyllgor ar y gyllideb, eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog mai dim ond i gyllid ychwanegol dros y llinell sylfaen y mae Fformiwla Barnett yn berthnasol:

> *"What we've had come over from the UK Government is the baseline, and the baseline isn't Barnettised; that was based on the previous calculations that the previous UK Government made, which took into account some of the money that we'd received already. So, it was lower than we were expecting at the time, but that baseline has come across. Our understanding of what the UK Government has proposed is that any changes to that will be Barnettised, in the sense of, if there is an additional amount going into England, we will get a Barnett consequential of that additional amount."*[85]

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Ymateb NFU Cymru (Saesneg yn unig)
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Ymateb Undeb Amaethwyr Cymru (Saesneg yn unig)
[84] Pwyllgor Dethol Materion Cymreig, 12/02/2025, Cwestiwn 17
[85] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 114

**88.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau nad yw'r cysylltiad â fformiwla Barnett wedi eu hatal rhag buddsoddi'n sylweddol ym mhob un o'r meysydd a ddisgrifiwyd.[86] Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd:

> *"We are happy with the Barnettisation of funding by and large; what we're not happy with is with Barnett as it stands overall. So, I'm glad that there are discussions outside of my Cabinet portfolio, wider within Government, with the Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language on refining Barnett, how it applies across the regions."*[87]

**Ein barn ni**

Er ein bod yn disgwyl y bydd y gyllideb hon yn cadw'r goleuadau ymlaen mewn ffermydd ledled Cymru, rydym yn siomedig gan y diffyg uchelgais. Rydym yn pryderu nad yw'r dyraniad cyllidebol yn caniatáu ar gyfer y newid trawsnewidiol yr oedd llawer wedi gobeithio y byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei gyflwyno.

Mae gennym bryderon ynghylch cymhwyso Fformiwla Barnett ar gyfer cymorth amaethyddol. Mae gan Gymru draddodiad ffermio cryf, gyda dros 10% o weithlu amaethyddol y DU wedi'i leoli yma, ac mae ein hallbwn amaethyddol fesul pen yn uwch na chyfartaledd y DU. Rydym yn teimlo, felly, nad yw Fformiwla Barnett yn adlewyrchu anghenion Cymru yn deg. Byddai dychwelyd at ddull sy'n seiliedig ar anghenion/yr hyn a gynhyrchir yn decach i'n ffermwyr a'n gwasanaethau cyhoeddus eraill a fydd efallai yn gorfod ysgwyddo'r baich i gefnogi ein diwydiant cynhyrchu bwyd hanfodol.

At hynny, roeddem yn synnu o glywed y Dirprwy Brif Weinidog yn ymddangos fel pe bai'n mynd yn groes i'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ar y mater hwn. Byddem yn gwerthfawrogi eglurhad ar y mater hwn.

Mae undebau ffermio wedi tynnu sylw at y ffaith bod dyraniadau cyllid sefydlog ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn golygu bod gwerth cymorth amaethyddol mewn termau real wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i chwyddiant. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod y cynllun newydd yn gofyn iddynt wneud mwy gyda llai o gyllid, yn y bôn. Rydym yn pryderu y bydd lleihau gwerth y cymorth amaethyddol fel hyn yn arwain at lai o ffermwyr yn ymuno â'r cynllun, a fydd yn ei dro yn niweidio gallu Llywodraeth Cymru i wireddu ei

[86] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 111
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 111

hamcanion drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dylai'r Llywodraeth hon a'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru ystyried sut y gall adfer y gwerth sydd wedi'i golli o'r cynnig cymorth amaethyddol oherwydd chwyddiant.

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried pob mecanwaith posibl sydd ar gael iddi i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael y cyllid sydd ei angen i gyflawni ei huchelgais, drwy gefnogi ffermwyr. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar ddefnyddio Fformiwla Barnett i ariannu cymorth amaethyddol, a dylai ailagor trafodaethau gyda'r DU ynghylch symud yn ôl i ddyraniad ar gyfer amaethyddiaeth yn seiliedig ar anghenion/yr hyn a gynhyrchir.

**Argymhelliad 20.** Dylai'r Llywodraeth hon a'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru ystyried sut y gallant ddychwelyd gwerth termau real y pecyn cymorth amaethyddol i'r un lefel â'r cyfnod cyn 2016.

## Pysgodfeydd

**89.** Mae'r gyllideb ddrafft yn gweld dyraniad Pysgodfeydd yn cynyddu 2% o £3.61 miliwn i £3.68 miliwn, a chyfalaf 2%, o £1 miliwn i £1.02 miliwn. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael dyraniad o £18 miliwn dros 12 mlynedd (sy'n cyfateb i £1.5 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd) oherwydd setliad Cronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol Llywodraeth y DU.[88]

**90.** Mae papur y Dirprwy Brif Weinidog yn nodi "Bydd ein cyfeiriad yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar ddulliau rheoli cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar gyflwyno Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a mesurau rheoli addasol. Bydd y cyfan yn cael ei gefnogi gan wyddoniaeth a thystiolaeth ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid."[89]

**91.** Mae rhestr o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn cynnwys 12 sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru.[90] Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r cynlluniau fel dull allweddol o ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy sy'n cael eu rheoli'n dda. Cyhoeddwyd dau gynllun yn 2023.[91]

**92.** Sicrhaodd y Dirprwy Brif Weinidog yr Aelodau eu bod wedi gwneud cynnydd da ar y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, e'u bod eisoes o fewn y gyllideb. Nododd y gallent gyflymu'r Cynlluniau a'r gwaith a wneir arnynt pe bai mwy o arian ar gael.

[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Dirprwy Brif Weinidog
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Dirprwy Brif Weinidog
[90] Gov.UK List of fisheries management plans (Saesneg yn unig)
[91] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 63

Nododd nad yw'n angenrheidiol, gan ei fod eisoes o fewn y gyllideb, ond y byddai modd gwneud mwy.

**93.** Nododd y Dirprwy Brif Weinidog fod cyllid y Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol wedi'i ddyrannu ledled y DU dros 12 mlynedd, ac nad oeddent yn gwybod faint o gyllid fydd yn cael ei ddyrannu bob blwyddyn. Roedd hyn yn golygu nad oedd ganddo fanylion eto ynglŷn â sut y byddai'r gronfa honno'n cael ei gwario.[92] Aeth ymlaen i esbonio sut y gellid dyrannu'r arian:

> *"we will be … making those decisions in a very strategic way, based on evidence of where the money would deliver the biggest bang for the buck. That could be investment in fisheries directly, in the fleet, and so on. It could be in other creative ways. Officials at the moment are working to try and understand what the detail of this funding is year by year and how we could use that, and how the fund can be used to provide support to the fishing industry and to coastal communities."*[93]

### Ein barn ni

Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod llawer iawn o waith i'w wneud i ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sy'n weddill. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod y Dirprwy Brif Weinidog o'r farn bod modd cyflawni'r holl gynlluniau o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod hwn yn faes y mae angen sylw pellach arno. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai defnyddio rhywfaint o'r cyllid sydd heb ei ddyrannu i gyflymu'r gwaith sydd heb ei wneud o fudd i'n pysgodfeydd a'n cymunedau arfordirol.

Byddwn yn dilyn y datblygiadau o amgylch y Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol yn agos. Rhaid defnyddio'r arian hwn i adfywio ein cymunedau arfordirol a chefnogi ein pysgotwyr. Gan nad oes strategaeth pysgodfeydd ar gyfer Cymru o hyd, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch sut y bydd y gronfa hon yn cael ei rheoli'n strategol. Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf wrth ddatblygu'r strategaeth ar gyfer dyrannu cyllid.

[92] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 54
[93] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 56

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai dyrannu cyllid ychwanegol i'r BEL Pysgodfeydd gyflymu'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sy'n weddill.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau mewn perthynas â'r Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid defnyddio'r Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol i sicrhau bod buddion cadwyn gyflenwi bwyd môr Cymru yn aros yng Nghymru er budd cymunedau arfordirol, gan gynnwys buddsoddi yn y sector prosesu bwyd môr.

## TB Buchol

**94.** Mae ffermwyr yn cael iawndal am wartheg a gaiff eu lladd ar ôl canfod bod twbercwlosis buchol arnynt. O dan y drefn bresennol, mae prisiwr yn asesu'n unigol beth yw gwerth pob anifail ar y farchnad. Uchafswm prisiad anifail yw £5,000. Mae'r BEL Taliadau Difa TB - Costau a Derbyniadau wedi cynyddu 2% o £14.31 miliwn i £14.60 miliwn.[94]

**95.** Mae Llywodraeth Cymru yn gorwario'n rheolaidd ar y BEL hwn ac mae wedi disgrifio'r system iawndal bresennol yn flaenorol fel un nad oedd "yn gynaliadwy ar sail y gyllideb a oedd ar gael."[95] Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig system amgen gydag iawndal yn seiliedig ar bris cyfartalog y farchnad, ac maent yn amcangyfrif y byddai hynny'n arbed £5.1 miliwn y flwyddyn.[96] Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog yn flaenorol y bydd y broses adolygu fewnol hon yn cael ei chwblhau cyn diwedd tymor y Senedd hwn cyn symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus.[97] Wrth edrych ar y mater hwn ar gyfer ymchwiliad blaenorol, clywodd y Pwyllgor fod yr undebau ffermio yn gwrthod y cynigion yn gyfan gwbl, tra bod RSPCA Cymru o'r farn eu bod yn rhesymol.[98]

**96.** Roedd yr aelodau'n pryderu mai'r gorwariant hwn oedd pris methiant polisi yn y bôn ac nad oedd dull ataliol yn cael ei gyflawni. Tynnodd y Dirprwy Brif Weinidog sylw at waith sydd ar y gweill i leihau TB buchol a sut mae'n cael ei ariannu:

---

[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, papur y Dirprwy Brif Weinidog
[95] Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru - Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB, 2021
[96] Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru - Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB, 2021
[97] Cyfarfod Llawn, 13/05/2025, paragraff 383
[98] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Adnewyddu Rhaglen Ddileu TB Buchol Cymru, Mai 2022

> *"we continue to drive forward on the innovations that we are making within Wales, which are leading-edge innovations. So, what we've done in the Pembrokeshire pathway, we continue to fund. And we've extended that now to north Wales in a different scenario, so that we can drive forward. And in a range of areas, we're funding work with the TB advisory board, the TB partnership board, to seek the way that we can achieve the eradication".*[99]

**97.** Aeth ymlaen i gadarnhau y dylai'r gwaith hwn yn ei dro leihau gwariant ar daliadau iawndal TB buchol.[100]

### Ein barn ni

Mae Aelodau'n pryderu bod Llywodraeth Cymru, drwy'r BEL ar gyfer TB buchol, yn talu swm sylweddol o arian ar daliadau iawndal. Mae'n croesawu'r adolygiad i sut mae taliadau iawndal yn cael eu talu i sicrhau'r gwerth gorau am arian, ac yn annog cwblhau'r adolygiad hwn cyn diwedd y Senedd hon fel bod tystiolaeth ar gael er mwyn i Lywodraeth nesaf Cymru barhau â'r gwaith hwn.

Fodd bynnag, mae Aelodau'n pwysleisio mai taliad am fethiant polisi yw iawndal. Bydd cael y polisi'n iawn, a lleihau TB buchol o ganlyniad, yn lleihau cost y BEL gan ryddhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau eraill. Rydym yn croesawu strwythurau newydd gan gynnwys y Grŵp Cynghori Technegol a'r Bwrdd Rhaglen i gefnogi dull partneriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â TB buchol, ar gyfer dull ataliol o wario'r gyllideb yn y maes hwn.

**Argymhelliad 24.** Dylid cwblhau'r adolygiad i daliadau iawndal TB buchol cyn diwedd y Senedd hon i lywio dull gweithredu Llywodraeth nesaf Cymru. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull ataliol ar gyfer cyllid TB buchol drwy fynd i'r afael â'r clefyd ei hun gyda pholisïau effeithiol. Dylid llunio'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth a chyngor y Grŵp Cynghori Technegol a'r Bwrdd Rhaglen gan gynnwys dysgu gwersi o arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt.

## Garddwriaeth

**98.** Mae cefnogaeth i arddwriaeth wedi'i lledaenu ar draws nifer o linellau BEL. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu, yn enwedig o ystyried yr argyfwng

[99] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 196
[100] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 199

hinsawdd a'r cyfrifoldebau y mae hynny'n eu creu i leihau milltiroedd bwyd a chynyddu diogelwch bwyd, nad oes digon o waith yn cael ei wneud i gynyddu faint o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu yng Nghymru.

**99.** Pan ofynnwyd iddo am waith Llywodraeth Cymru i gefnogi garddwriaeth, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau:

> *"I realise it's not sufficient for where we need to get to ultimately, but, actually, we're building capacity in that space every day, every month; we're growing this. So, we have farmers now who are producing ... But we can't magic it up, we've actually got to encourage, incentivise, put the right funding in place; Farming Connect support is in this space as well."*[101]

### Ein barn ni

O safbwynt newid hinsawdd, mae cefnogaeth i arddwriaeth yn hanfodol i leihau milltiroedd bwyd a'r carbon cysylltiedig, ac i wella ein diogelwch bwyd. Bydd sector garddwriaeth gwell hefyd yn helpu i dyfu'r economi a chefnogi ein hysgolion a'n hysbytai i weini cynnyrch lleol i ddisgyblion a chleifion. Mae'n anodd iawn o'r dogfennau cyllideb a ddarparwyd i gyfrifo faint o gyllid sydd ar gael i gefnogi'r nodau pwysig hyn. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir yn y gyllideb hon, a dylai Llywodraeth nesaf Cymru nodi mewn cyllidebau yn y dyfodol, y gefnogaeth y bydd garddwriaeth yn ei chael ar draws pob dyraniad.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir yn y gyllideb hon, a dylai Llywodraeth nesaf Cymru nodi mewn cyllidebau yn y dyfodol, y gefnogaeth y bydd garddwriaeth yn ei chael ar draws pob dyraniad.

[101] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 26/11/2025 Paragraff 102